



TGAU

3020U20-1CH

**DYDD MERCHER, 26 MAWRTH 2025 –
PRYNHAWN
WEDNESDAY, 26 MARCH 2025 –
AFTERNOON**

**CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2**

**PRAWF CH (Diwrnod 2)
TEST CH (Day 2)**

**CYFATHREBU AG ERAILL
COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE**

**COPI'R YMGEISYDD
CANDIDATE'S COPY**

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dewiswch UN dasg.

Cewch hyd at 10 munud (a'ch amser estynedig) i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

**(Trowch y dudalen)
(Turn over)**

INFORMATION FOR CANDIDATES

Choose ONE task.

You have up to 10 minutes' preparation time (plus your additional time allowance).

You may make notes and discuss with your partner/group during this time.

The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.

Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.

**(Trowch y dudalen)
(Turn over)**

NAILL AI TASG 1

CHWARAEON. FAINT WYT TI’N WNEUD?


CORFF IACH, MEDDWL IACH

“

Dw i wrth fy modd yn chwarae golff gyda dad ar y penwythnos ond mae fy ffrindiau yn dweud bod golff ddim yn chwaraeon go iawn. Maen nhw’n chwarae pêl-droed a rygbi!

”

IOAN



“


Hoffwn i wneud chwaraeon drwy’r dydd, bob dydd!

”

BETHANY

CHWARAEON. FAINT WY'T TI'N WNEUD?

Chwaraeon yn yr ysgol



CHWARAEON. FAINT WYT TI’N WNEUD?

CHWARAEON – OES RHAID I MI?

“

Mae Miss Beynon addysg gorfforol yn cynnal gwersi jiwdo ar ôl ysgol bob dydd lau. Maen nhw’n wych. Hoffai hi weld mwy o ferched yn cymryd rhan.

”

CHARLIE



CHWARAEON. FAINT WYTT TI’N WNEUD?



Ydy hyn yn ddigon?



“

Dw i ddim yn gwneud llawer o chwaraeon – dim ond un wers yr wythnos yn yr ysgol. Fodd bynnag dw i’n mynd â’r ci am dro bob dydd ac yn cerdded tua thair milltir bob tro.

”

GARETH

Dylech chi wneud 30 munud o ymarfer corff 5 gwaith yr wythnos.

CHWARAEON. FAINT WYT TI'N WNEUD?

“

Mae campfa newydd yn ein hysgol ni gyda chyfleusterau i'r anabl. Mae'r tîm pêl-fasged anabl yn ymarfer yna bob wythnos.

”

DARLENE



Manteision gwneud chwaraeon:

- cadw'r corff yn iach
- cadw'r meddwl yn iach
- llai o broblemau iechyd
- cyfle i gymdeithasu
- osgoi gordewdra
- dysgu sgiliau tîm



NEU TASG 2 DATHLIADAU

“
Mae nain yn 70 oed ym mis Mai.
Mae mam wedi trefnu parti sypreis
iddi. Bydd hi wrth ei bodd!
”
STEFFAN



DATHLIADAU

“
Mae siop yn y dref ble ti'n gallu rhentu
dillad prom. Mae'r prisiau yn rhesymol.
”

“
Oes wir? Galla i fynd yna ar ôl
yr ysgol. Diolch Dylan!
”

“
Karina, wyt ti'n mynd
i'r parti prom?
”

“
Nag ydw. Does gen i
ddim byd i wisgo – mae
dillad prom mor ddrud!
”

Rhentu dillad prom. Syniad ardderchog ac yn dda i'r amgylchedd!

DATHLIADAU

Beth ydych chi'n ddathlu?

- pen-blwydd
- priodas
- babi newydd
- pasio prawf gyrru
- pasio arholiadau
- Nadolig



DATHLIADAU

“

**Aeth fy mrawd Tom i barti
pen-blwydd ei ffrind yn 18 oed.
Roedd alcohol yn y parti a daeth
Tom adref wedi yfed llawer
gormod. Doedd mam a dad DDIM
yn hapus!**

”

JASON



DATHLIADAU



Hanukkah



Diwali



Eid



Y Pasg

DATHLIADAU

“

I ddathlu gorffen TGAU dw i a fy ffrindiau yn mynd i wersylla i Ynys Môn. Gobeithio bydd y tywydd yn sych!

”

BETSAN


“

Rydyn ni'n dathlu pen-blwydd y ci yn wyth oed yr wythnos nesa a bydd hi'n cael anrhegion. Bydd hi hefyd yn cael teisen arbennig i gŵn!

”

CRAIG

Wyt ti am
ddathlu
gorffen
TGAU?



PARTI HEB
ALCOHOL?
DIM
DIOLCH!

NEU TASG 3

DIWEDD TGAU. DIWEDD ADDYSG?

“

Bydd fy chwaer yn gorffen
Lefel A eleni hefyd ac yna'n
mynd i Affrica i weithio yn
wirfoddol gydag anifeiliaid.
Hoffwn i fynd gyda hi ond
dw i'n rhy ifanc!

”

ROBBIE




DIWEDD TGAU. DIWEDD ADDYSG?

“

**Dw i'n gobeithio mynd i ddosbarth
6 i astudio addysg gorfforol,
busnes a Ffrangeg.**

”

IWAN



“

**Mae gwaith yn y caffi 'da fi yn barod
a byddda i'n aros yno. Dw i eisiau
cynilo arian er mwyn teithio Ewrop
yn y dyfodol.**

”

AIMEE



DIWEDD TGAU. DIWEDD ADDYSG?

“

Hoffwn i wneud prentisiaeth. Coleg bob dydd Mawrth, Mercher a lau i astudio marchnata a busnes a byddda i'n gweithio gyda'r cyngor dydd Llun a dydd Gwener.

”

SEEMA




DIWEDD TGAU. DIWEDD ADDYSG?



Ar ôl TGAU

15% coleg


10% gwaith



Mae hi MOR anodd dewis:

- ysgol ?
- gwaith ?
- coleg ?

Does dim syniad 'da fi!



DIWEDD TGAU. DIWEDD ADDYSG?

“

Mae cwmni gwerthu ceir Ford gyda dad a dw i wedi bod yn gweithio'n rhan-amser gyda fe ers pan oeddwn i'n un deg pedwar oed. Byddda i'n cael swydd llawn amser ar ôl TGAU. Dw i wedi mwynhau yr ysgol ond dw i ddim eisiau cario 'mlaen gyda fy addysg.

”

SASKIA



DIWEDD TGAU. DIWEDD ADDYSG?

**MAE’N COSTIO LLAWER I
FYND I BRIFYSGOL.**

- **llety!**
- **costau byw!**
- **ffioedd prifysgol!**

**OND..... FYDD GWAITH
WEDYN?**

**“Rydyn ni’n dysgu rhywbeth
newydd bob dydd” meddai Mam.
“Does dim diwedd i addysg!”**

**“
Dw i ddim yn aros yn yr
ysgol ond byddai i’n
colli fy ffrindiau!
”**

JOSH